**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

24 Medi 2024

Annwyl Huw,

Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

Diolch am eich ymateb dyddiedig 9 Medi i'm llythyr dyddiedig 3 Gorffennaf 2024 mewn perthynas â'r Rheoliadau uchod, yn dilyn yr ohebiaeth flaenorol a fu rhyngom.

Bu fy Mhwyllgor yn trafod eich llythyr yn ein cyfarfod ar 16 Medi. Nodwn eich esboniad pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno offeryn statudol diwygio eto i fynd i'r afael â phwynt adrodd 25 o adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau, a'ch barn bod effaith y gwall a nodwyd "yn eithaf di-nod ar hyn o bryd".

Nodwn hefyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio'r Rheoliadau cyn gynted â phosibl.

Fodd bynnag, mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol y bydd dwy flynedd wedi mynd heibio, erbyn mis Rhagfyr, ers gofyn i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau hyn. Mae'n siŵr eich bod hefyd yn ymwybodol ei bod eisoes yn hysbys, bryd hynny, fod y Rheoliadau yn ddiffygiol, a bod y Senedd wedi eu cymeradwyo gan wybod bod y Gweinidog Materion Gwledig wedi ymrwymo yn ystod y ddadl i wneud y cywiriadau gofynnol yn ystod y flwyddyn ganlynol. Gan gofio hynny, credwn ei bod yn hollbwysig bod y Pwyllgor – ac yn bwysicach fyth, y Senedd – yn cael amserlen fwy pendant o ran pryd y mae cyfle o'r fath i ddiwygio'r Rheoliadau yn debygol o godi, a therfyn amser pendant ar gyfer cyflwyno Rheoliadau diwygio. Gyda phob parch, yn ein barn ni, mae'n anfoddhaol gadael rheoliadau diffygiol ar y llyfr statud tan ryw bwynt amwys yn y dyfodol y mae'n bosibl na fydd byth yn cyrraedd.

Mae hefyd yn anffodus clywed nad oes unrhyw gyfryngau deddfwriaethol addas ar gael ar hyn o bryd i fynd i'r afael â phwynt adrodd 30 o adroddiad y Pwyllgor, yn unol ag ymrwymiad y Gweinidog ar y pryd i newid y weithdrefn graffu sy'n gymwys i'r pwerau dirprwyedig yn y Rheoliadau. Nodwn na allwch ychwaith ymrwymo i amserlen i gyflawni'r newid hwn. Mae hyn yn siomedig eto, o ystyried bod y Senedd wedi cymeradwyo'r Rheoliadau ar ôl clywed ymrwymiad y Gweinidog. Yn sgil yr ansicrwydd parhaus hwn, rydym yn ymwybodol y gallai pwynt godi lle y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru hysbysu'r Senedd – yn anffodus – na chaiff yr ymrwymiad hwn ei gyflawni. Byddem yn ddiolchgar, felly, pe gallech nodi dyddiad erbyn pryd y byddwch yn hysbysu'r Senedd bod y pwynt hwn wedi'i gyrraedd.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 17 Hydref 2024.

Yn gywir,

Mike Hedges
Cadeirydd